# Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021

**2021 dsc 3**

*Pryd y caniateir rhoi hysbysiad y landlord*

### 4 Hysbysiad y landlord o dan gontract safonol cyfnodol: pryd y caniateir rhoi hysbysiad

(1) Yn adran 175 o Ddeddf 2016 (cyfyngiadau ar roi hysbysiad o dan adran 173 yn ystod pedwar mis cyntaf meddiannaeth)—

(a) yn is-adran (1), yn lle "bedwar mis" rhodder "chwe mis";

(b) yn is-adran (2), yn lle "bedwar mis" rhodder "chwe mis".

(2) Daw pennawd adran 175 yn "Cyfyngiad ar adran 173: ni chaniateir rhoi hysbysiad tan ar ôl chwe mis cyntaf meddiannaeth".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

### 5 Cymal terfynu'r landlord o dan gontract safonol cyfnod penodol: pryd y caniateir rhoi hysbysiad

(1) Yn adran 196 o Ddeddf 2016 (cyfyngiadau ar ddefnyddio cymal terfynu'r landlord yn ystod pedwar mis cyntaf meddiannaeth)—

(a) yn is-adran (1), yn lle "bedwar mis" rhodder "18 mis";

(b) hepgorer is-adrannau (2) a (3).

(2) Daw pennawd adran 196 yn "Cyfyngiad ar ddefnyddio cymal terfynu'r landlord tan ar ôl 18 mis cyntaf meddiannaeth".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 5 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Pryd y caniateir rhoi hysbysiad y landlord.